**Cyngor Adnewyddu'r Economi**
**Papur Ardoll Prentisiaethau**

**Cynllun Sgiliau Polisi Prentisiaethau**

1. **Nod polisi arfaethedig Llywodraeth Cymru yw alinio prentisiaethau ag anghenion economi Cymru** fel bod y system sgiliau yn ymatebol i'r newidiadau mewn diwydiant, sy’n galluogi Cymru i gystadlu’n fyd-eang drwy gael gweithwyr sy’n meddu ar sgiliau technegol a phroffesiynol ar lefel uchel. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn hyfforddiant fydd yn esgor ar fuddiannau cymdeithasol ac economaidd; buddsoddi mewn sectorau twf a galwedigaethau i fynd i'r afael â’r prinder sgiliau a’r bylchau sy'n dal cynhyrchiant a thwf yn ôl. Rydym eisoes yn gweithio gyda chyflogwyr i ehangu a chryfhau llwybrau yn STEM, y diwydiannau digidol, technoleg gwybodaeth, adeiladu a gwasanaethau ariannol.

2. Mae’r dull a amlinellir yn y polisi hwn yn gyson â cham 4 Cynllun CBI Cymru ar gyfer Ffyniant (2016), cynllun 10 pwynt Sefydliad y Cyfarwyddwyr ar gyfer Economi Cymru (2016), dogfen CITB Cymru, Adeiladu Sgiliau ar gyfer Y Dyfodol (2016), a dogfen ICAEW, Partneriaeth ar gyfer Twf (2016). Mae hefyd yn gyson â’r argymhellion a’r rhybuddion sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr ar brentisiaethau a’r ardoll (2016) ac adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU ar yr un mater yn 2016.

3. Mae Polisi Sgiliau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r heriau hyn; nid yn unig y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau **100,000 o leiaf o brentisiaethau o safon i bob oedran** dros dymor presennol y Cynulliad, ond rydym hefyd yn bwriadu blaenoriaethu ein buddsoddiad drwy wneud y canlynol:

   - **Mynd i'r afael â phrinder sgiliau** drwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau twf a galwedigaethau sy’n dod i’r amlwg yn unol â blaenoriaethau a bennir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
   - **Datblygu sgiliau lefel uwch** - canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, yn arbennig mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a llwybrau proffesiynol, lle mae’r enillion yn tueddu i fod yn uwch.
   - **Cynyddu nifer y bobl 16-19 oed sy’n manteisio ar brentisiaethau,** gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi prentisiaid iau.
   - Darparu nifer fwy o brentisiaethau **drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu yn ddwyieithog.**

4. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn byddwn yn **cadw ein buddsoddiad presennol mewn prentisiaethau ar £96m.** Mae angen prentisiaethau ar draws amrywiaeth eang o sectorau. Maent yn dod yn gynyddol berthnasol i'r sector cyhoeddus o ran cynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus megis: addysg, gwasanaethau tân, rheoli gwastraff, gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau’r sector cyhoeddus i greu amrywiaeth o brentisiaethau gweithlu’r gwasanaeth cyhoeddus a fydd o gymorth i foderneiddio, creu arbedion effeithlonrwydd a gwneud y gwelliannau sydd eu hangen ar draws y sector.

5. **Mae'r £96m yn cynnwys £16m o Arian Ewropeaidd** sydd wedi cael ei sicrhau i gefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn prentisiaeth yng Nghymru.

6. **Mae dulliau polisi o ymdrin â phrentisiaethau yn newid ar draws y DU o ganlyniad i ddatganoli, blaenoriaethau gwahanol a'r Ardoll Prentisiaethau.** Y dull y mae Cymru wedi ei fabwysiadu yw sicrhau bod prentisiaethau yn cynyddu cynhyrchiant a manteision cymdeithasol cysylltiedig a bod ein buddsoddiad mewn prentisiaethau yn cynyddu twf i'r eithaf. Mae **Atodiad A** yn nodi'r dulliau gweithredu gwahanol ar draws y DU.

**Pam rydym yn newid ein patrwm buddsoddi?**

7. Mae cynhyrchiant y DU yn llusgo gryn bellter y tu ôl i'n prif gystadleuwyr rhyngwladol ac mae Cymru ar waelod tabl cynghrair cynhyrchiant rhanbarthol y DU. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod yr Almaen, Ffrainc ac UDA bob un oddeutu traean yn fwy cynhyrchiol na'r DU. Gellir egluro'r bwlch cynhyrchiant yn rhannol drwy bwyslais is y DU ar addysg dechnegol ac addysg alwedigaethol lefel uwch sy'n cyfuno hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant allan o'r swydd. Mae amcanestyniadau yn dangos y bydd yna, dros y degawd nesaf, oddeutu 5 miliwn o swyddi newydd a swyddi yn lle rhai presennol ar gyfer gwaith sgiliau uchel (gan gynnwys swyddi rheoli a phroffesiynol) a 3.6 miliwn o agoriadau ar gyfer swyddi sgiliau canolig (gan gynnwys crefftau medrus a swyddi proffesiynol/technegol cysylltiedig)[1].

8. Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif o'r rhai sy'n cychwyn ar brentisiaeth ar lefel mynediad yn dilyn Prentisiaethau Sylfaen ar lefel 2 (43 y cant); 35 y cant ar Brentisiaethau (lefel 3); a 22 y cant ar Brentisiaethau Uwch (lefel 4 ac uwch)[2]. O'r prentisiaid hyn mae'r rhan fwyaf mewn sectorau a galwedigaethau nad ydynt yn sectorau / galwedigaethau blaenoriaeth, er enghraifft, gweinyddu busnes, manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid.

**Buddsoddi mewn Prentisiaethau Gwerth Uchel**

9. Mae Cymru yn ail-gydbwyso buddsoddiad i gydredeg ag anghenion busnesau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn symud hyfforddiant prentisiaeth o sectorau cost isel, lle mae'r cynnwys o ran sgiliau yn gymharol isel a lle na cheir ond ychydig o dystiolaeth o brinder sgiliau, i mewn i sectorau gwerth uchel. Mae **Ffigur 1** yn darlunio sut mae gwerthoedd ariannu wedi cynyddu mewn peirianneg, adeiladu a gweithgynhyrchu dros gyfnod o dair blynedd.


10. Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ehangu ei gylch gwaith i fonitro camau fydd yn codi o'r Cynllun Gweithredu Prentisiaeth. Bydd hefyd yn sefydlu Grŵp Cynghori Prentisiaeth newydd dan arweiniad cyflogwyr i gynghori ar ddatblygiadau mewn fframweithiau prentisiaeth gyda'r nod o gyflawni uchafswm

[1] Wilson, R., Beaven, R., May-Gillings, M., Hay, G., and Stevens, J. (2014). Working Futures 2012- 2022. Adroddiad Tystiolaeth 83, Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU, Wath-upon-Dearne.
[2] Ystadegau Cymru – 2014/15

o 30 o fframweithiau prentisiaeth sy'n perfformio'n uchel i yrru economi Cymru yn ei blaen. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn bwydo i mewn i'r broses hon, gan ein cynorthwyo i gyfeirio buddsoddiad i sectorau blaenoriaeth ac ysgogi twf lleol a rhanbarthol.

**Ffigur 1**

**Gwerth (£) rhaglenni sy'n gymwys i dderbyn cyllid fesul sector, fel % o'r holl sectorau**




## Ardoll Prentisiaethau

11. **Treth cyflogaeth Llywodraeth y DU yw Ardoll Prentisiaethau y DU** sydd i ddod i rym o 6 Ebrill 2017. Bydd yr holl gyflogwyr (Cyhoeddus a Phreifat) sydd â bil cyflogau o fwy na 3 miliwn bob blwyddyn, yn talu'r ardoll. Mae cyfradd yr ardoll yn 0.5% o fil cyflogau'r cyflogwr, yn seiliedig ar gyfanswm enillion y gweithwyr heb gynnwys taliadau, megis buddion mewn nwyddau. Bydd cyflogwyr yn cael lwfans ardoll o £15,000 y flwyddyn i wrthbwyso yn erbyn yr ardoll a delir i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy'r broses TWE.

12. Mae Cymru yn derbyn swm sy'n ganlyniad Barnett o wariant prentisiaeth yn Lloegr a ariennir gan yr Ardoll Prentisiaethau, ochr yn ochr â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ar gyfer 2017/18 a 2018/19 nid yw hyn yn cynrychioli cyfran y boblogaeth o'r ardoll a ragwelir, ac mewn cydnabyddiaeth o hyn mae'r Trysorlys wedi darparu swm bach o arian ychwanegol yn y blynyddoedd hyn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r addasiad hwnnw, mae'r cyllid ychwanegol hwn i raddau helaeth wedi ei wrthbwyso gan ganlyniad negyddol Barnett sy'n deillio o roi'r gorau i wariant ar raglenni prentisiaeth mewn mannau eraill yn yr adrannau perthnasol yn Whitehall. **Yn gyfanredol, pan gyfunir hwn â'r baich ariannol ychwanegol y bydd yr ardoll yn ei osod ar gyflogwyr y sector cyhoeddus, ni fydd arian ychwanegol amlwg ar gael i Gymru o ganlyniad i'r ardoll.**

13. Nid ymgynghorwyd â Chymru na'r Alban na Gogledd Iwerddon, ar gyflwyno'r ardoll, ei chwmpas na'i chyfradd.

14. Yng Nghymru, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau ar lefel uwch mewn meysydd technegol a sectorau blaenoriaeth, fel bod y cyflogwyr sy'n talu'r ardoll yn cael mynediad at yr hyfforddiant gorau un. Bydd Partneriaethau Sgiliau

Rhanbarthol yn ymgynghori â chyflogwyr sy'n talu'r ardoll i bennu'r gofynion sgiliau sy'n codi o'r ardoll a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn fel rhan o'r asesiadau sgiliau y maent yn eu cynhyrchu bob blwyddyn. Bydd eu cynlluniau yn dylanwadu ar ble y byddwn yn buddsoddi.

15. Byddwn yn cefnogi prentisiaethau yn y sector cyhoeddus, fel y nodwyd yn gynharach yn y papur hwn. Bydd yr ardoll yn cael effaith anghymesur ar y sector cyhoeddus yng Nghymru; mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif yn fras y bydd rhaid i gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru dalu £30m y flwyddyn i Drysorlys y DU.

**Cyfathrebu a Chymorth**

16. Er mwyn gwneud prosesau ymgysylltu â chyflogwyr yn ffurfiol, rydym yn sefydlu tîm o ymgynghorwyr sy'n gallu cynorthwyo cyflogwyr i benderfynu ar effaith yr ardoll a sut y gellir cyfarfod â'u hangen am brentisiaethau - lle y maent yn cyd-fynd â'n sectorau blaenoriaeth. Bydd y tîm hwn yn asesu sut mae prentisiaethau presennol yn cwrdd ag anghenion cyflogwyr a sut y gall cyflogwyr wneud y gorau o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Lle y ceir tystiolaeth fod angen adolygu cynnwys prentisiaeth, bydd yn gweithio gyda phartneriaid i wneud hynny.

17. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ffeithiol ar gyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n talu'r ardoll yng Nghymru, sy'n egluro dull ein polisi yng Nghymru. Rhannwyd y canllaw drafft gyda'r CBI sydd wedi cefnogi ein negeseuon arfaethedig ar yr ardoll.

18. Mae darparwyr prentisiaethau dan gontract wedi enwebu cydgysylltydd ardoll prentisiaethau, fydd yn derbyn gwybodaeth gan yr Uned Brentisiaeth ac yn anfon staff priodol i weithio gyda chyflogwyr ar anghenion recriwtio'r prentisiaethau. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cyfarfodydd rhwng cydlynwyr ardoll prentisiaethau a'r Uned Brentisiaethau.

19. Bu ymgysylltiad sylweddol â chyflogwyr a chyrff cynrychioliadol, megis y CBI. Hyd yma, rydym wedi derbyn mwy na 200 o ymholiadau ynghylch yr ardoll ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a chyrff y sector i sicrhau eu bod yn deall ein dull o ymdrin â phrentisiaethau yng Nghymru.

20. Ar gyfer y cyflogwyr hynny sy'n talu'r ardoll ac sy'n gweithredu rhwng cenhedloedd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gytuno ar safbwynt cyffredin. Byddwn yn rhoi prosesau newydd yn eu lle sy'n cydnabod eu hanghenion ac yn cynnig eglurder.

21. Yn Lloegr, bydd angen i gyflogwyr sy'n talu ardollau ddewis darparwyr hyfforddiant eu hunain a chytuno ar bris am yr hyfforddiant. Yng Nghymru, byddwn ni'n ariannu yn uniongyrchol y darparwyr sy'n gweithio gyda chyflogwyr i ddadansoddi eu hanghenion a chytuno ar becyn hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny.

**Diwallu Anghenion yr Economi Sylfaenol**

22. Bydd yr ymgyrch i ddatblygu a darparu prentisiaethau ar lefelau uwch, mewn meysydd technegol a sectorau blaenoriaeth yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth brentisiaethau lefel is. Rydym yn cydnabod, serch hynny, y bydd ar gyflogwyr angen rhaglenni hyblyg, tymor byr, i ddatblygu'r gweithlu mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, megis manwerthu, gweinyddu busnes a gwasanaeth i gwsmeriaid.

23. Er mwyn diwallu eu hanghenion, rydym yn edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â bylchau sgiliau ac anghenion hyfforddiant gweithwyr presennol, lle na fyddai prentisiaeth lawn yn addas. Byddai angen i hyfforddiant o'r fath fodloni safonau diwydiant a bod o werth i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Unwaith y bydd y dewisiadau cychwynnol a hyblygrwydd wedi eu llunio, bwriadwn ymgynghori â chyflogwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

## Atodiad A

## Dulliau o Ymdrin â Phrentisiaeth ar draws y DU

| | Y system arfaethedig yng Nghymru | Y system flaenorol yng Nghymru | Y system arfaethedig yn Lloegr | Y system arfaethedig yn yr Alban | Y system arfaethedig yng Ngogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgar-eddau Blaenoriaeth** | Sgiliau lefel uwch a sectorau blaenoriaeth i gynyddu cynhyrchiant a gwerth ychwanegol crynswth | Sgiliau lefel uwch a sectorau blaenoriaeth i gynyddu cynhyrchiant a gwerth ychwanegol crynswth | Dull pob oedran | Sgiliau lefel uwch a sectorau blaenoriaeth i gynyddu cynhyrchiant a gwerth ychwanegol crynswth | Sgiliau lefel uwch a sectorau blaenoriaeth i gynyddu cynhyrchiant a gwerth ychwanegol crynswth |
| **Cynnwys Prentisiaeth** | Fframweithiau prentisiaeth sy'n gysylltiedig â fframweithiau Celtaidd a datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a meincnodau ansawdd rhyngwladol. | Fframweithiau prentisiaeth | Safonau Prentisiaeth dan arweiniad Cyflogwyr | Prentisiaethau Sylfaen, Modern ac Uwch sy'n gysylltiedig â fframweithiau Celtaidd a datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a meincnodau ansawdd rhyngwladol. | Fframweithiau prentisiaeth sy'n gysylltiedig â fframweithiau Celtaidd a datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a meincnodau ansawdd rhyngwladol. |
| **Darparwyr** | 19 o ddarparwyr mawr â sicrwydd ansawdd yng Nghymru, gan gynnwys colegau a darparwyr preifat. | 19 o ddarparwyr mawr â sicrwydd ansawdd yng Nghymru, gan gynnwys colegau a darparwyr preifat. | Darparwyr â sicrwydd ansawdd a bennir gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau. | Amrywiaeth fawr o ddarparwyr, gan gynnwys cyflogwyr, colegau a darparwyr preifat | Darparwyr, gan gynnwys colegau a darparwyr preifat |
| **Cyflawniad** | Nifer sylweddol o gyfranogwyr yn Sgiliau Byd Abu Dhabi | 1af yng nghystadleuaeth Sgiliau Byd y DU 2016 | 3ydd yng nghystadleuaeth Sgiliau Byd y DU 2016 | 2il yng nghystadleuaeth Sgiliau Byd y DU 2016 | 4ydd yng nghystadleuaeth Sgiliau Byd y DU 2016 |
| **Cyfundrefn Ansawdd ac Arolygu** | Cynigion Hazelkorn | Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd | Nid yw'n glir sut y bydd y Sefydliad ar gyfer Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol yn gweithredu ac yn cysylltu ag HMI, SFA, OfS a chyrff eraill. | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yr Alban ac Addysg yr Alban | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Gogledd Iwerddon ac Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Gogledd Iwerddon |